

Ysgol Mynydd Bychan

Polisi Cwricwlwm

1 Cyflwyniad

- 1.1 Y cwricwlwm yw'r gweithgareddau a drefnwn er mwyn hybu dysgu ac annog datblygiad personol y plant. Mae'n cynnwys pethau eraill yn ychwanegol at ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef y gweithgareddau all-gyrsiol a drefnir er mwyn cyfoethogi profiad y plant. Mae'n cynnwys y 'cwricwlwm cudd' hefyd, sef yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu o ddisgwyliadau eraill ohonynt ac o'r ffordd y cânt eu trin. Ein hamcan yw addysgu plant fel eu bod yn tyfu'n oedolion cadarnhaol a chyfrifol, a fydd yn gallu gweithio a chyd-weithio gyda eraill, ac a fydd yn gallu cyrraedd eu llawn botensial am eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.

2 Gwerthoedd

- 2.1 Mae cwricwlwm ein hysgol wedi ei selio ar y gwerthoedd hynny sy'n bwysig i ni. Y cwricwlwm yw'r modd yr ydym yn llwyddo yn y bwriad o addysgu'r plant mewn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth fel eu bod yn gallu dilyn bywydau gwerthfawr.

2.2 Dyma'r prif werthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm:

- rydyn ni'n gwerthfawrogi bod pob plentyn yn unigryw ac mae ein cwricwlwm yn hybu parch at farn plant unigol ynghyd â pharch at ddiwylliannau eraill. Rydyn ni'n credu bod datblygiad ysbrydol a moesol pob plentyn yn bwysig, ynghyd â'u tyfiant corfforol a deallusol.
- Rydyn ni'n gweld gwerth ym mhob aelod o'r gymuned. Mae'r cwricwlwm yn cael ei drefnu fel bod cyd-weithrediad a dealltwriaeth rhwng aelodau'r gymuned yn cael eu hybu.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi hawliau pawb yn y gymdeithas. Rydyn ni'n parchu'r plant fel unigolion ac yn eu trin yn deg ac yn onest. Rydyn ni'n anelu at alluogi pawb i lwyddo, ac rydyn ni'n darparu cyfle cyfartal i bob plentyn.
- Rydyn ni'n parchu'n hamgylchfyd, a thrwy gyfrwng y cwricwlwm rydyn ni'n ceisio dysgu parch at y byd. Rydyn ni'n sôn am bwysigrwydd gofalu am y byd er mwyn y cenedlaethau sydd eto i ddod.

3 Nod ac amcanion

3.1 Nod y cwricwlwm yw:

- **galluogi'r plant i ddysgu a datblygu eu sgiliau hyd eithaf eu gallu trwy gyflwyno cwricwlwm cynhwysol sy'n cynnig cyfleoedd i bob plentyn fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd.**
- **hybu agwedd iach tuag at ddysgu, fel bod plant yn mwynhau dod i'r ysgol, er mwyn creu sylfaen gadarn tuag at ddysgu oes-gyfan;**
- **addysgu'r medrau sylfaenol o lythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth;**
- **galluogi'r plant i fod yn greadigol ac i ddatblygu ffordd o feddwl drostyn eu hunain.**
- **addysgu'r plant am y byd sy'n datblygu o'u hamgylch, yn cynnwys y ffordd y mae eu hamgylchfyd a'u cymdeithas wedi newid ar hyd y blynyddoedd;**
- **helpu'r plant i ddeall treftadaeth ddiwylliannol ein gwlad;**
- **galluogi'r plant i fod yn ddinasyddion cadarnhaol yn ein cymdeithas a'r byd;**
- **addysgu'r plant i werthfawrogi eu rhan yng nghymuned yr ysgol, y gymuned leol a'r gymuned fyd-eang.**
- **cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Maes Llafur Lleol mewn Addysg Grefyddol;**
- **dysgu plant i fod yn ymwybodol o'u datblygiad ysbrydol ac i wahaniaethu rhwng da a drwg;**
- **cynorthwyo plant i ddeall pwysigrwydd gonestrwydd a thegwch, fel eu bod yn tyfu i wybod bod cyfle cyfarfal i bawb yn bwysig;**
- **galluogi'r plant i barchu eu hunain, er mwyn gallu byw a chydweithio gydag eraill;**
- **addysgu'r plant am y byd sy'n datblygu gan gynnwys sut mae eu hamgylchedd a'u cymdeithas wedi newid dros amser;**
- **i werthfawrogi cyfraniad a wneir gan holl grwpiau ethnig yn ein cymdeithas aml-ddiwyllannol.**

4 Trefniadaeth a chynllunio

- #### **4.1 Rydyn ni'n cynllunio'r cwricwlwm mewn tri chyfnod. Rydyn ni'n cytuno ar gynllun hir-dymor ar gyfer pob cyfnod allweddol. Mae'r cynllun hwn yn dangos beth sy'n mynd i gael ei addysgu ym mhob tymor i bob blwyddyn ysgol. Rydyn ni'n adolygu'r cynllun hir-dymor fel rhan o'r broses adolygu.**

- 4.2 Mae gennym gynlluniau gwaith sy'n gosod arweiniad eglur ynglŷn â nod ac amcanion y strategaethau dysgu a ddefnyddir. Dyma a elwir yn gynllun canol-dymor.
- 4.3 Y cynlluniau byr-dymor yw'r rhai a ysgrifennir yn bythefnosol. Yma gosodir allan y sgiliau a'r amcanion dysgu ar gyfer bob sesiwn, a nodir pa adnoddau a gweithgareddau a ddefnyddir. Rydyn ni hefyd yn clustnodi cyfleoedd asesu fel bod gwybodaeth werthfawr gennym ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.
- 4.4 Yn y Cyfnod Sylfaen rydyn ni'n dilyn argymhellion y Fframwaith ar Gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru. Mae'r gweithgareddau yn cael eu cynllunio yn ofalus er mwyn sicrhau bod dilyniant a pharhâd yn y deilliannau yn y meysydd dysgu statudol:- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol; Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd; Datblygiad Corfforol; Datblygiad Creadigol.
- 4.5 Yng Nghyfnodau Allweddol 2 fe addysgir y pynciau craidd a sylfaen ar wahân ac yn draws gwricwlaidd. Yn ystod y flwyddyn addysgiadol bydd pob plentyn wedi cael cyfle i brofi'r ystod llawn o bynciau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

5 Y cwricwlwm a chynhwysiad

- 5.1 Mae cwricwlwm ein hysgol wedi ei greu er mwyn rhoi cyfle i bob plentyn. Os credwn bod angen addasu'r cwricwlwm i gwrdd ag anghenion arbennig plentyn unigol, yna gwnawn hynny ar ôl ymgynghori gyda rheini'r plentyn.
- 5.2 Yn unol â'r Côd Ymarfer ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yr ydym mewn sefyllfa i allu cydnabod unrhyw broblem a allai amharu ar ddatblygiad plentyn yn y dosbarth derbyn. Mae'r profion man-cychwyn hefyd yn gymorth i asesu hyn.

Drwy gydweithrediad rhwng yr athro dosbarth a'r cyd-lynydd ADY yr ydym yn medru trefnu targedau i'w dilyn yn y dosbarth. Ein nod yw sicrhau darpariaeth gynnar er mwyn ceisio datrys unrhyw broblem cyn iddi waethgu.

Mae'r athro dosbarth yn monitro cynydd pob plentyn ac mae unrhyw broblem sydd yn dod i'r amlwg yn cael ei nodi. Mae'r athrawon yn gwahaniaethu wrth gyflwyno tasgau, wrth ddarparu adnoddau a deunyddiau. Maent yn ymdrechu i gyfatebu'r gwaith i anghenion y

disgyllion unigol. Drwy ddefnyddio'r broses barhaol o gynllunio, asesu ac adolygu ac wrth barhau i fonitro datblygiad pob plentyn, mae'r athrawon yn medru gweld yn syth:

- os yw'r plentyn yn cael anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na gweddill ei gyfoedion;
- os oes gallu neu dalent arbennig gan y plentyn a bod angen gwahanaethu'r gwaith ar ei gyfer er mwyn ei ymestyn.

Mae'r athro dosbarth yn cyfeirio plentyn at weithredu yn yr ysgol o'r Côt Ymarfer. Bydd yr athro dosbarth a'r cyd-lynydd ADY yn cydweithio ar Gynllun Addysgu Unigol (CAU), bydd targedau penodol yn cael eu gosod ac fe gysylltir â'r rheini.

Os na fydd y broblem yn cael ei datrys drwy ddilyn trefniadaeth 'Weithredu yn yr Ysgol', yna fe fydd y plentyn yn symud ymlaen i 'Weithredu gan yr ysgol a Mwy'. Fe fydd yr ysgol yn ymgynghori ac yn cydweithio gydag arbenigwyr allanol ar y pwynt hwn. Gellir cael cymorth dysgu ychwanegol gan arbenigwyr allanol, e.e. gan therapydd iaith a Lleferydd neu Seicolegydd Addysg.

Os na fydd plentyn yn dangos cynnydd pan ar gam 'Gweithredu gan yr ysgol a Mwy' ac os yw'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer asesiad stadudol llawn, bydd cais yn cael ei wneud i'r AALI i weithredu asesiad llawn o anghenion y plentyn. Fe fydd yr AALI yn ystyried a ddylid llunio datganiad a'i peidio.

Gall plentyn sydd wedi derbyn 'Datganiad Anghenion Addysg Arbennig' dderbyn addysg yn Ysgol Mynydd Bychan. Bydd yr AALI yn darparu cymorth ychwanegol. Bydd yr ysgol a'r AALI yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a gweithredu CAU unigol addas.

- 5.3 Mae'r ysgol yn paratoi Cynllun Addysgu Unigol ar gyfer yr holl blant sydd ar y gofrestr anghenion arbennig. Mae'r cynllun yn gosod allan beth yw natur ei anghenion, ac mae'n amlinellu sut mae'r ysgol yn bwriadu cwrdd â'r angen. Mae'r cynllun hefyd yn gosod allan beth yw'r targedau ar gyfer dangos cynnydd, fel y gallwn adolygu a monitro datblygiad y plentyn yn gyson.

Adolygir cynnydd y plentyn o leiaf unwaith bob tymor.

6 Y Cyfnod Sylfaen

- 6.1 Mae'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn dilyn gofynion y Fframwaith ar gyfer plant 3-7 oed yng Nghymru. Mae ein cynllunio yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau a'r profiadau a nodir yn y ddogfen hon.**
- 6.2 Mae ein hysgol yn credu'n gryf bod plant ifanc yn dysgu wrth chwarae, ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig sydd wedi eu cynllunio'n ofalus. Mae'r addysgu yn y dosbarth derbyn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn yr uned feithrin. Rydyn ni'n ceisio datblygu partneriaeth dda gyda'r meithrinfeydd amrywiol sy'n bwydo'r dosbarth derbyn, yn ogystal â'n huned feithrin ni.**
- 6.3 Yn ystod y tymor cyntaf yn y dosbarth Meithrin a Derbyn, mae'r athro/athrawes yn cynnal asesiad gwaelodlin er mwyn recordio sgiliau'r plant unigol ar gychwyn eu gyrfa ysgol. Mae'r asesiad hwn yn bwysig wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer pob plentyn i'r dyfodol.**
- 6.4 Rydyn ni'n ymwybodol iawn bod angen cefnogaeth rhieni ac athrawon er mwyn i blant ddangos cynnydd yn yr ysgol. Rydyn ni'n ymdrechu i gysylltu gyda rheini'r plant er mwyn iddynt wybod beth yw natur addysg a chynnydd eu plant.**

7 Medrau allweddol

- 7.1 Dyma'r 'sgiliau allweddol' fel y'u henwir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol:**
- **sgiliau meddwl**
 - **sgiliau cyfathrebu**
 - **sgiliau technoleg gwybodaeth**
 - **sgiliau rhif.**
- 7.2 Rydyn ni'n tanlinellu'r medrau hyn yn ein cynlluniau ynghyd â nodi pa sgil llythrennedd a rhifedd sydd yn cael eu cyflwyno a'u hasesu, er mwyn gallu monitro cynnydd y plant yn yr holl ardaloedd. Mae pob pwnc yn cyfrannu at ddatblygiad y plant yn y medrau. Rydyn ni'n credu bod angen i bob plentyn gynyddu yn y medrau er mwyn ymgyrraedd at eu potensial llawn. Wrth i'r cynlluniau gwaith gael eu hadolygu, rydyn ni'n clustnodi'r medrau.**

8 Rôl y cyd-lynydd pwnc

8.1 Rôl y cyd-lynydd pwnc yw:

- **darparu arweiniad a chyfeiriad ar gyfer y pwnc;**
- **cefnogi'r staff a chynghori ynglŷn â materion yn ymwneud â'r pwnc;**
- **monitara datblygiad y disgyblion o fewn y pwnc;**
- **darparu rheolaeth effeithiol o'r adnoddau ar gyfer y pwnc.**

8.2 Rydyn ni'n rhoi amser di-gyswllt i'r cyd-lynyddion pwnc, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Dylai'r cyd-lynydd pwnc wybod am y datblygiadau diweddaraf yn eu pwnc, ar lefel cenedlaethol a lleol. Maen nhw'n adolygu'r modd y caiff y pwnc ei addysgu yn yr ysgol, ac maent yn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynllunio yma yn cydfynd ag amcanion cyffredinol yr ysgol gyfan. Mae'r cyd-lynydd pwnc yn adolygu'r cynlluniau cwricwlwm a'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer eu pwnc, er mwyn sicrhau bod y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu cwrdd yn llawn. Maent hefyd yn sicrhau bod parhâd a dilyniant yn rhan o'r cynlluniau gwaith. Maent hefyd yn cadw portffolio o waith plant, er mwyn dangos lefelau cyrhaeddiadau plant o fewn y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol a dangos enghreifftiau o'r hyn a ddisgwylir.

9 Monitara ac adolygu

9.1 Is-bwyllgor Cwricwlwm y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae'r cwricwlwm yn cael ei weithredu.

9.2 Mae gennym lywodraethwyr wedi eu henwi i fod yn gyfrifol am Lythrennedd a Rhifedd. Mae'r llywodraethwyr yn cysylltu gyda'r cyd-lynyddion pwnc ac maent yn monitara'r addysg. Mae hefyd gennym lywodraethwr sy'n gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cysylltu â'r cyd-lynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn monitro y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

9.3 Mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefniadaeth ddyddiol y cwricwlwm. Mae'n monitara'r cynlluniau gwersi pythefnosol ar gyfer yr holl athrawon, er mwyn sicrhau bod y gwersi yn dilyn gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a bod amcanion dysgu addas i'r gwersi.

9.4 Mae'r cyd-lynyddion pwnc yn monitro'r ffordd y caiff y pwnc a'r meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ynghyd â sgiliau Llythrennedd a Rhifedd eu haddysgu yn yr ysgol. Maent yn edrych ar y cynllunio hir-dymor a chanol-dymor, er mwyn sicrhau bod strategaethau perthnasol yn cael eu defnyddio. Mae'r cyd-lynyddion pwnc hefyd yn gyfrifol am fonitro'r defnydd a'r rheolaeth o'r adnoddau.

Pennaeth:-

Cadeirydd y Corff Llywodraethol:-